**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 21 o Orffennaf 2020 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phil Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Cemlyn Jones, Hefin Jones, Meirwen Lloyd, Iola Parry, Haf Williams, Gwion Llwyd, Richard Robinson

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Clifford Williams, Alan Pritchard, Beca Brown

**Hefyd yn Bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Clerc:** Meirion Jones

**625. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolch y Cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau

**626. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**627. Datgan buddiant personol.**

Fe ddatganwyd buddient personol fel a ganlyn ac ni chymerodd yr aelodau ran yn y drafodaeth nac mewn unrhyw benderfyniad.

Eitem 639 (b) Y Cynghorydd Meirwen Lloyd
Eitem 639 (e) Y Cynghorwyr Phil Roberts, Goronwy Hughes a Cemlyn Jones

**628. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 30 Mehefin 2020**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir

**629. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Adroddwyd gan y Cyng Cemlyn Jones fod cyfrif 'Twitter' y cyngor bellach wedi ei gau ac fe ddiolchwyd iddo am ei waith

**630. I ystyried a cymeradwyo prynu tabledi ar gyfer pob aelod oherwydd oblygiadau i aelodau o bosib beidio cymryd rhan mewn cyfarfod oherwydd nad oes offer ganddo ac i sicrhau diogelwch data mae'r cyngor yn berchen arno. (Adroddiad ar hyn wedi gylchredeg i'r aelodau)**

**Penderfynwyd:** Symud ymlaen a pwrcasu tabledi ar gyfer yr aelodau byddai yn cael eu defnyddio dim ond ar gyfer gwaith y cyngor. Nodwyd pan fydd

aelod yn peidio bod yn aelod o'r cyngor, yna bydd y ddyfais yn cael ei drosglwyddo i aelod newydd.

Bydd angen i bob aelod arwyddo eu bod yn cydymffurfio a pholisi'r cyngor ar ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth – y clerc i drefnu hyn.

Nodwyd byddai'r Cynghorydd Cemlyn Jones yn trefnu i'w gosod fyny ar gyfer pob aelod ac lawrlwytho yr 'apiau' priodol

**631. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Hamdden.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Hamdden) fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar safle parc sglefrio, Cwm y Glo. Ymys y materion a drafodwyd oedd:-

a) Trefniadau ar gyfer ail agor y parc sglefrio – nodwyd fod arwyddion wedi eu rhoi fyny yn y parc yn rhybuddio defnyddwyr o reolau cadw pellter cymdeithasol, y pwysigrwydd o olchi dwylo a'r ffaith nad ydi'r offer wedi eu diheintio.
b) Nodwyd fod y ffens angen ei adnewyddu ac fod trefniadau wedi eu gwneud gyda ein contractwr i wneud y gwaith;
c) Nodwyd fod rhai o'r coed yn y parc sglefrio yn tyfu dros y parc ac ar draws y palmant. Nodwyd fod y gwaith o docio'r coed yma wedi ei wneud.
d) Adroddwyd fod nifer o goed sydd rhwng y parc sglefrio a'r cau chwarae ddim wedi cael eu archwilio i weld pa mor saff ydynt. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer y coed sydd gyferbyn a'r parc sglefrio yn ogystal. Pe byddai un ohonynt yn disgyn yna byddai yn gallu achosi difrod sylweddol i eiddo neu beryglu bywyd;
e) Adroddwyd ymhellach fod asesiad risg wedi ei wneud ar gau chwarae Allt Goch, Cwm y Glo ar gyfer eil ail agor yn dilyn Cofid-19 ac fod y gwaith paratoi mewn llaw ar gyfer creu posteri, a cau ambell i offer i ffwrdd.
f) Trefniadau Nadolig 2020. Ymysg y materion a drafodwyd oedd cystadleuaeth ar gyfer busnesai a tai lleol addurno a gofynnir i bob aelod wneud ymholiadau cyn cyfarfod Awst am eu syniadau a gweld beth mae'r gymuned yn ei hoffi.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i'r Cynghorydd Cemlyn Jones amdano
b) Y clerc y gysylltu ac arbenigwr coed i gario allan asesiad risg a ble adnabyddir nad yw'r coed yn saff, yna i'w dymchwel

**632. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid eu bod wedi cyfarfod ac ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd:-

a) Adroddiad ar gyfer pwrcasu tabledi i'r aelodau a cytunwyd fod cyllideb ar gael i brynu tabled. Nodwyd fod cadw gwybodaeth bersonol a sensitif ar ddyfeisiadau personol yn rhoi unigolyn mewn risg ac hefyd y cyngor
b) Trafodwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol a diolchodd y cadeirydd i'r clerc am ei waith. Un mater tynnwyd sylw'r cyngor ato oedd diffyg cytundeb waith rhwng y cyngor a'r clerc. Nodwyd yn yr adroddiad fod hyn ar y gweill. Adroddwyd yn sgil Cofid-19 fod oriau gwaith y clerc wedi cynyddu yn sylweddol a cynigiodd y Cyng Meirwen Lloyd fod cydnabyddiaeth o hyn yn cael ei wneud. Nodwyd ymhellach fod angen edrych ar gyflog y clerc yn gyfan gwbl,
c) Fe adolygwyd y gyllideb ond y teimlad oedd nad oedd addasiadau i'w gwneud oherwydd ers cychwyn y flwyddyn ariannol nid oedd llawer o wariant (dim ond yr arferol) wedi ei wneud a buasai'r pwyllgor yn cyfarfod eto ymhen 3 mis.
d) Trafodwyd fod gan y cyngor ddogfennau ym mynd yn ôl flynyddoedd bellach ac ar hyn o bryd yn cael eu cadw yn atig y clerc. Nodwyd pan fydd y rheolau yn llacio bydd yn rhaid mynd drwyddynt a gweld beth sydd angen ei gadw a beth gellir ei daflu.

**Penderfynwyd:**

a) Fod y pwyllgor cyllid yn cymeradwyo prynu tabledi os bydd y cyngor yn dewis;
b) Fod materion cyflog y clerc yn cael ei ddatrys erbyn mis Medi neu Hydref fan hwyraf ac fod cydnabyddiaeth am y gwaith ychwanegol yn cael ei gytuno arno
c) Ail edrych ar y gyllideb cyfarfod nesaf o'r pwyllgor cyllid;
d) Pan fydd amgylchiadau yn caniatáu mynd drwy'r dogfennau yn y Sefydliad Coffa.

Derbyniwyd a diolchwyd am yr adroddiad

**633. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fod y pwyllgor wedi cyfarfod ddwy waith. Ymysg yr hyn a drafodwyd oedd;

a) Wedi cario allan asesiad risg ar y fynwent, drwy ddilyn y drefn arferol o gerdded o amgylch a nodi unrhyw ddiffygion neu unrhyw beth fyddai yn codi consyrn.
b) Nodwyd fod sawl carreg fedd yn gorwedd ers peth amser ac fod angen gwneud rhywbeth i'w tacluso – roedd rhain i lawr ers peth amser cinio cario allan y gwaith a adnabyddwyd llynedd.
c) Nodwyd fod angen tanc dwr ychwanegol oherwydd fod yr un presennol yn rhedeg allan ar dywydd sych ac efallai byddai yn lleihau ar y poteli plastig sydd yn cael eu gadael yn y fynwent.
d) Adroddwyd fod trefniadau wedi ei gwneud i gysegru tir yn y fynwent am 6:00 yn Nos Iau 23 o Orffennaf 2020 drwy Parchedig Marcus Robinson
e) Mynegwyd pryder am gyflwr y ffordd tuag at y fynwent.

**Penderfynwyd:**

a) Ceisio barn a pris gan gwmni i wneud y gwaith ar y cerrig beddi
b) Hysbysu ein contractwr i wneud y gwaith
c) Cysylltu a Cyngor Gwynedd am gyflwr y ffordd
d) Os yn bosib i rheini sydd yn gallu dod fod yn y fynwent erbyn 5:45yh ar nis Iau ar gyfer y cysegru

Diolchwyd a derbyniwyd yr adroddiad

**634. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

**Gweinyddiaeth y Cyngor**

Er gwybodaeth mae oddeutu 1500 o staff yn gweithio o adref, 1600 yn gweithio yn y maes a dim ond 125 yn gweithio yn y swyddfeydd.

Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y gyfundrefn Profi, Olrhain a Diogelu (POD) mae llywodraeth Cymru wedi clustnodi £11m ar gyfer y rhanbarth i gyflogi unigolion i weithio yn y maes, yn hytrach na dibynnu ar symud staff o adrannau eraill y Cyngor.

Yn gyffredinol o'r 92 gwasanaeth sydd yn uniongyrchol effeithio ar drigolion, mae tua 45% ohonynt yn darparu'r gwasanaeth arferol i bob pwrpas; gyda 20% pellach yn darparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaeth arferol ond gyda rhai elfennau pwysig ar goll. Mae yna tua 35% o'r gwasanaethau wedyn yn y categori lle nad ydynt yn darparu unrhyw beth yn agos at y gwasanaeth arferol.

Mae pwyllgorau y cyngor yn dechrau yn ôl yn rhithiol gyda'r Pwyllgor Cynllunio erbyn hyn wedi cynnal 2 gyfarfod. Pwyllgor Trwyddedau hefyd wedi cyfarfod, Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfarfod wythnos nesaf, a hefyd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd hefo Ynys Môn yn cyfarfod wythnos nesaf. Ni fydd y Pwyllgorau Craffu yn cyfarfod tan yr Hydref ac hefyd Y Cyngor Llawn

Agor yr ysgolion wedi bod yn llwyddiannus ac y gobaith yw agor yn llawn amser yn mis Medi.

Mae angen cofrestru genedigaethau wyneb yn wyneb hefo rhiant, nid yw hyn wedi bod yn bosib dros y cyfnod cloi, sydd yn golygu fod ôl-groniad o dros 500 o enedigaethau angen eu cofrestru.

**Economi**

Datblygu Economaidd - Mae trafodaethau gyda busnesau Gwynedd yn parhau a sefyllfa nifer o gyflogwyr yn fregus iawn. Mae canran uchel o weithlu Gwynedd ar ffyrlo, 13,300, sef 28.6% o'r gweithlu ac felly mae pryder am ddyfodol y swyddi hyn os ydi'r rhaglen yn dod i ben cyn i'r cyfyngiadau ar fusnesau godi. Mae pryder

hefyd na fydd busnesau micro yn gallu elwa o gymorth Cronfa Caderniad Economaidd pan fydd yn ailagor.

**Torri cloddiau**

Cwynion am yr angen i dorri yn ôl coed ger y safle bws ar draws y ffordd i Dolafon, am eu fod yn anodd gweld wrth edrych i fyny am Llanrug pan eisiau croesi. Fel dwi yn deall perchennog y cae sydd yn gyfrifol am hyn, ac mae'r swyddogion y cyngor wedi gofyn iddynt ei dorri.

**635. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Dim adroddiad ar gael.

**636. I ystyried cais am gyfraniad ariannol gan Marie Curie**

**Penderfynwyd:** Cyfrannu £250 ar gyfer yr elusen

**637. I benderfynu os am wneud trefniadau i agor y parc sglefrio ac i ystyried pa gamau i'w cymryd wrth agor yr offer chwarae pan fydd amgylchiadau yn caniatáu.**

Adroddwyd fod y parc sglefrio yn cael agor ac fod arwyddion eisoes wedi ei rhoi fyny yn rhybuddio defnyddwyr nad yw'r offer wedi ei ddi heintio a'r pwysigrwydd o gadw pellter cymdeithasol.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a rhoi arwyddion fyny ar y meysydd chwarae yn ogystal.

**638. I ystyried cais gan Gyngor Cymuned Llandwrog ar gyfer torri gwair (copi gyda'r agenda)**

Adroddwyd fod y cyngor wedi prynu fewn i wasanaeth torri gwair Cyngor Gwynedd ar gyfer o flaen yr ystadau. Ar hyn o bryd nid oedd lle i roi sylw ar yr e bost oherwydd nid oedd cwynion wedi dod i law hyd yma. Adroddwyd fod y ffi wrth ofyn i Gyngor Gwynedd wneud y gwaith yn rhatach na pris a dderbyniwyd gan gontractwr preifat.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a methu rhoi sylw ar y mater ar hyn o bryd

**639. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C20/0492/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Addasu'r modurdy presennol i fod yn anecs is-raddol i'r ty a adnabyddir fel Tyddyn Garreg.

**Ymgeisydd:** Mr C Griffiths

**Cyfeiriad:** Tyddyn Garreg Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BD

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais ar yr amod fod yr amodau yn cael eu cadw atynt.

**b) Rhif y Cais:** C20/0493/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Cais deiliad tŷ ar gyfer codi estyniad un llawr a porth blaen

**Ymgeisydd:** Miss Sonia Lyn Hughes

**Cyfeiriad:** 2 Bryn Moelyn, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4PH

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd**: Cefnogi'r cais

**c) Rhif y Cais:** C20/0467/23/RA

**Math o Gais:** Caniatâd ar gyfer manylion wedi'u cadw'n ôl gan amod

**Bwriad:** Rhyddhau amod rhif 3 (llechi naturiol) a 4 (deunyddiau allanol) o ganiatâd cynllunio rhif C20/0180/23/LL/.

**Ymgeisydd:** Mr Owain Williams

**Cyfeiriad:** Bryn Gwyn Mawr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RG

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Gwrthwynebu'r cais a sicrhau fod yr amodau gwreiddiol yn cael eu cadw.

**d)** **Rhif y Cais:** C20/0445/23/AC

**Math o Gais:** Diddymu/Amrywio Amod(au)

**Bwriad:** Diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C18/0990/23/LL er mwyn caniatáu cynllun diwygiedig ar gyfer newidiadau ac estyniadau i'r ty presennol

**Ymgeisydd:** Mr Aled Roberts

**Cyfeiriad:** Crigyll, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AE

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**e)** **Rhif y Cais:** C20/0426/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Cais ar gyfer dymchwel ty gwydr presennol a chodi estyniad un llawr i gefn yr eiddo

**Ymgeisydd:** Mr Iddon Williams

**Cyfeiriad:** Ger Y Nant, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4SE

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

**640.** **I ystyried arolwg Heddlu Gogledd Cymru ar newidiadau i Ddeddfwriaeth Ffyrdd – gellir llenwi arolwg drwy ddilyn y linc yma – https://www.surveymonkey.co.uk/r/DdefddwriaethFfyrdd**

Adroddwyd fod arolwg ar y gweill gan Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ac anogir pawb i gwblhau'r arolwg.

**641.** **I dderbyn gwybodaeth am gyfarfod arbennig a gynhaliwyd 13 o Orffennaf (ymateb i Gyngor Gwynedd ynghlwm)**

Adroddwyd fod ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd sydd eisoes wedi ei gylchredeg i'r aelodau.

Daeth y cyfarfod i ben am 20:50

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: